newyddion UCU University and College Union Undeb Prifysgol a Choleg Cymru news

## Pleidlais Ddangosol Ymgyrch Gormod o Waith a Dim Digon o Gyflog Cylchlythyr 1

Dros y misoedd diwethaf byddwch wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r ymgyrch i drafod y mater o lwyth gwaith unwaith eto a gwybodaeth fwy diweddar fod y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) wedi argymell cynnydd o 2% yng nghyflog pobl sydd ar frig ac ar waelod pwyntiau'r brif raddfa.

Yn y ddau gylchlythyr cyntaf y byddwn yn eu dosbarthu yn ystod cyfnod y bleidlais ddangosol, byddwn yn adrodd yn ôl ar benderfyniadau'r Cyd-Undebau Llafur.

Gwnaethom gyfarfod ddydd Gwener 1 Rhagfyr a chytunodd y mwyafrif i wrthod y cynnig cyflog o 1% gan Colegau Cymru fel ymateb i'n hawliad am ddyfarniad cyflog, sy'n gorfod bod yn 3.2% o leiaf gydag 1% ychwanegol neu £800, p'un bynnag yw'r mwyaf.

Cytunodd pob undeb i ddod â'u pleidleisiau dangosol i ben erbyn diwedd mis Ionawr er mwyn pennu p'un a yw eu haelodau yn fodlon gweithredu'n ddiwydiannol er mwyn darbwyllo CC i wella eu cynnig. Caiff pleidlais ddangosol ei threfnu yn ystod mis Chwefror, sydd yn ofynnol cyn gweithredu'n ddiwydiannol, os bydd digon o gefnogaeth yn amlwg o'r bleidlais ddangosol. Byddai hyn yn golygu cymryd camau gweithredu yn dilyn gwyliau'r Pasg.

Nid ydym yn dadlau o blaid cyflog cyfartal i athrawon ysgol mwyach, gan ein bod yn

## Overworked and Under Paid Campaign Indicative ballot Newsletter 1

Over the past few months you will have received, via your branch officers and newsletters, information about the campaign to get the issue of workload on the negotiating table again and more recently information that the School Teachers Pay Review Body (STRB) has recommended a 2% pay increase on the bottom and top point of main grade scale points.

In the first of two newsletters we will be circulating during the indicative ballot period, we report back on the decisions made by the Joint Trade Unions (JTUs).

We met on Friday 1st December and agreed by a majority to reject the 1% pay offer from ColegauCymru as their response to our claim for a pay award, which as a minimum must be 3.2% plus 1% or £800, whichever is the greater.

All unions agreed to conclude their indicative ballots by the end of January to establish whether their members are willing to take industrial action to persuade CC to improve their offer. A statutory ballot, which is required before taking industrial action, will be organised during the month of February, if sufficient support is indicated in the indicative ballot. This would mean taking action after the Easter holidays.

We are no longer arguing for pay parity with school teachers, as we believe that

credu na fyddai'r argymhelliad gan y Corff Adolygu Athrawon Ysgol o gynnydd o 2% ar frig ac ar waelod y brif raddfa, gyda'r holl bwyntiau eraill yn derbyn 1%, yn dderbyniol i'r mwyafrif o'n haelodau yng Nghymru.

Mae'r Undeb Prifysgolion a Cholegau yn credu bod yr holl staff sy'n gweithio yn y sector Addysg Bellach yn haeddu cynnydd gweddol yn eu cyflog er mwyn cyd-fynd â chwyddiant ac i wneud iawn am ddiffygion y gorffennol yn ystod y blynyddoedd o galedi. Credwn, fel mater o foesoldeb, y dylai pob Pennaeth dderbyn yr un cynnydd yn eu pecyn cyflog â'r cynnydd y maent yn ei argymell i lywodraethwyr roi i'w staff. Ond gwyddom na fydd hynny byth yn digwydd gan fod safonau dwbl ar waith. **PLEIDLEISIWCH O BLAID HYN GAN DDANGOS I'CH PENNAETH FOD ANGEN IDDO DRIN STAFF YN DEG A THALU'R UN MATH O GYNNYDD IDDYNT AG Y MAE'N EI DDYFARNU I'W HUNAN**

the recommendation from the (STRB) of a 2% increase on the top and bottom of main grade, with all other points receiving 1% would not be acceptable to the majority of our membership in Wales.

UCU believe that all staff working in the FE sector deserve a decent increase in their pay to keep pace with inflation and to make up for the past shortfalls during the austerity years. It is our view that all Principals, as a matter of morality, should only accept the same increase in their pay package as the increase they recommend to governors for their staff. But we know that will never happen as there are double standards at play.

**PLEASE VOTE YES AND DEMONSTRATE TO YOUR PRINCIPAL THAT THEY MUST TREAT STAFF FAIRLY AND PAY STAFF THE SAME TYPE OF INCREASE THEY AWARD THEMSELVES**